**Dysgu gan eraill yn yr Ŵyl Ryngwladol ar Dai Cymdeithasol**

**Adroddiad gan Siân Gwenllian**

***Cyflwyniad***

Ddechrau mis Mehefin 2025, ymunais â llunwyr polisi a gweithwyr yn y maes o bob cwr o'r byd i edrych yn fanwl ar yr heriau allweddol y mae'r sector tai yn eu hwynebu heddiw, a beth yw'r ffordd orau o ymateb iddynt.



*Siân Gwenllian AS, gyda Casey Edwards a Kathryn Robinson o sefydliad Cwmpas*

***Argyfwng tai byd-eang***

Fe sylweddolais yn fuan pa mor gyffredin yw'r heriau yr ydym oll yn eu hwynebu. Mae Cymru ymhell o fod ar ei phen ei hun o ran y ffaith ei bod yn wynebu argyfwng tai. Mae profiadau tebyg ledled y byd yn amlygu bod yr argyfwng tai yn broblem fyd-eang. Mae'r ymatebion a geir mewn gwahanol ddinasoedd, gwahanol ranbarthau a gwahanol wledydd yn amrywio o ran eu heffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â'r broblem hon.

Gallwn wneud mwy drwy gydweithio, ac rwy'n croesawu'r ymdrechion i sefydlu Siarter Byd-eang ar gyfer Cydraddoldeb Tai, sydd wedi'u sbarduno gan yr Athro Dave Adamson a'i gydweithwyr yn Awstralia. Edrychaf ymlaen at gyfleoedd pellach i ymgysylltu.

Roedd hanesion dinasoedd fel Melbourne, Fienna a Winnipeg yn awgrymu bod y sefyllfa o ran fforddiadwyedd tai, boed yn y farchnad rhent neu ymhlith y rhai sy'n berchen ar gartref, wedi difrifoli'n sydyn, gyda phrisiau yn llawer uwch nag incwm pobl. Mae ymyriadau lleol a chenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth o ran y ffordd y mae pobl yn profi tueddiadau rhyngwladol. Mae'r gyfran uchel o dai cymdeithasol yn Fienna wedi chwarae rôl bwysig o ran lleddfu'r broblem, ac rwyf am i Gymru fod yn yr un sefyllfa.

Mae'r stori yn un gyffredin, sef bod y galw yn uwch na'r cyflenwad. Mae angen inni adeiladu a chaffael rhagor o dai fforddiadwy, ac mae gwersi i'w dysgu o ran sut mae

gwahanol wledydd yn cyflawni hyn, sef gyda gwahanol gymhellion ariannol neu bolisïau cynllunio, er enghraifft.

Mae cyllid fforddiadwy yn allweddol. Clywais am y gwahaniaeth y mae’r Asiantaeth Cyllid Tai yn Iwerddon yn gallu ei wneud drwy sicrhau mynediad at gyllid llog sefydlog hirdymor gan Fanc Buddsoddi Ewrop. O ganlyniad i Brexit, ni all Cymru gael mynediad at gronfeydd Ewropeaidd, ond sut felly y gall Cymru greu dewisiadau amgen? Pa wersi y gallwn ni eu dysgu gan yr Asiantaeth Cyllid Tai yn Iwerddon?

Mae Iwerddon hefyd wedi sefydlu'r Asiantaeth Dai, a diben yr asiantaeth honno yw cyflymu'r broses o gyflenwi tai. Mae'n dwyn ynghyd amrywiaeth o randdeiliaid ac yn chwarae rôl alluogi. Mae hyn yn cynnwys darparu data a gwaith dadansoddi o ansawdd uchel, arbenigedd a chymorth technegol, a chymorth ym maes arloesi. Sefydlodd Llywodraeth Cymru raglen Unnos o dan y Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru. Mae gwersi i’w dysgu o brofiadau Iwerddon ynglŷn â sut y gall Unnos ddatblygu'n effeithiol fel corfforaeth ddatblygu genedlaethol ac asiantaeth tir, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Mae'r profiad yn Fienna hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad mater o gyflenwad a galw yn unig yw’r broblem hon. Hyd yn oed pan gynyddodd y cyflenwad o dai yn Fienna i ddiwallu'r galw, parhau i gynyddu y gwnaeth y prisiau, ac roeddent yn llawer uwch nag incwm pobl. Mae angen i Lywodraethau ddeall y ffactorau eraill sy'n gwaethygu’r argyfwng, a chymryd camau yn eu cylch, yn enwedig y ffaith bod tai yn cael eu trin fel nwyddau masnachol. Rhaid i bolisi tai drin tai fel nwyddau er budd cymdeithas.

***Dysgu gwersi o’r ymatebion a welir mewn mannau eraill***

Mae’r hawl i gael tai digonol wedi’i hymgorffori mewn cyfraith ryngwladol, o dan Gyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Yn amlach na pheidio, fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymarferol. Mae gen i ddiddordeb mewn sut mae’r ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno’r hawl i dai digonol mewn mannau eraill yn sbarduno gwelliannau.

Fel aelod o Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd, mae gen i ddiddordeb mewn edrych yn fanwl ar sut y gallai cyflwyno rhenti teg yng Nghymru gynorthwyo’r broses o fynd i'r afael â fforddiadwyedd yn y sector rhentu. Mae sawl gwlad arall yn Ewrop eisoes wedi cyflwyno trothwy uchaf ar gyfer rhent. Clywais am y gwahanol ddulliau sy'n cael eu rhoi ar waith yn Nenmarc, Sbaen ac Iwerddon, yn ogystal â’r cynigion sy’n cael eu hystyried yn yr Alban ar hyn o bryd. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o ddinas Barcelona y gofyniad moesol sy’n gyrru eu gwaith o ran darparu tai fforddiadwy i weithwyr allweddol, a sicrhau pontio cyfiawn i ynni glân yn y ddinas, a nodasant eu bod hefyd yn ceisio atal aflonyddwch cymdeithasol rhag cynyddu. Rwy'n falch ein bod ni hefyd yn cymryd

camau gweithredu yng Nghymru. Yn ystod tymor y Senedd sydd newydd ddod i ben, cyflwynwyd Bil ar drwyddedu llety gwyliau tymor byr, yn unol â’r Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru.

Mae’r sefyllfa o ran rhentu tai at ddibenion twristiaeth yn y tymor byr yn rhan o'r darlun, gan fod hyn yn lleihau'r cyflenwad o dai i drigolion ac yn arwain at gynnydd mewn prisiau. Mewn ymateb, mae Barcelona wrthi’n dileu pob cytundeb rhent tymor byr yn raddol erbyn 2028. Beth allwn ni ei wneud i reoli heriau tebyg yn y sector tai gwledig yng Nghymru?

Mae llunwyr polisi a datblygwyr ledled Ewrop hefyd yn ceisio ymateb ar frys i newid hinsawdd. Roedd sesiwn gan Energiesprong yn amlinellu prosiectau arloesol y rhaglen o ran adnewyddu tai cyfan a wneir mewn ffatrïoedd yn Ffrainc, yr Almaen a'r DU. Roedd yn tanlinellu’r ffaith y bydd angen sicrhau bod polisi yng Nghymru yn hyblyg os ydym am sicrhau buddion unrhyw ddatrysiadau sy'n dod i'r amlwg.

Yn aml, mae’r mater cyllid yn teimlo fel rhwystr anorchfygol. Cefais fy ysbrydoli, serch hynny, wrth glywed am yr ymatebion gwahanol sy’n deillio o arloesi ym maes cyllid tai. Os byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni nodau clir, bydd arbenigwyr ariannol yn aml yn gallu datblygu datrysiadau. Rwy'n awyddus i edrych ar sut y byddai modd addasu cynlluniau ariannu fforddiadwy ar gyfer prosiectau ôl-osod yn Estonia a Bwlgaria er mwyn hwyluso gweithgarwch ôl-osod yng Nghymru yn gynt ac ar raddfa fwy.

***Gall Cymru arwain y ffordd***

*Sian Gwenllian AS gydag Amanda Oliver o United Welsh Cymru a Dr Jennifer Hoolachan o Brifysgol Caerdydd*



Roeddwn yn falch o weld bod Cymru'n arwain mentrau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Drwy’r Cytundeb Cydweithio, rydym wedi gweld cynnydd o ran mynd i’r afael â’r sector tai gwledig, gan gynnwys drwy newid y gyfundrefn drethi ar ail gartrefi a thrwy’r gwaith a wnaed gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae cyfeillion yn Ewrop yn awyddus i ddysgu o'n mentrau ni, yn enwedig o ran mynd i'r afael â’r problemau tai yn y Gaelacht yn Iwerddon.

Roedd drama newydd a gomisiynwyd gan sefydliad Cwmpas ar gyfer y gynhadledd yn mynegi'n bwerus y ffaith mai stori am bobl yw tai. Mae tai yn cael effaith sylfaenol ar ein perthnasoedd, ein cymunedau a'n cyfleoedd mewn bywyd. Roedd y ddrama hon yn un o'r prosiectau arloesol a oedd yn dangos sut y gall y celfyddydau adrodd y stori hon, ond hefyd dangos sut y gall hwyluso sgyrsiau gwell am ddewisiadau tai yn y dyfodol ar draws gwahanol grwpiau o bobl.

Mae United Welsh Cymru wedi bod yn cydweithio ag eraill i greu gwasanaethau tai a chymorth newydd – gwasanaethau a grëwyd gyda phobl ifanc ac ar eu cyfer. Roedd clywed am y prosiect Tai Ffres a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i bobl ifanc yn ysbrydoledig. Edrychaf ymlaen at gael cipolwg personol o'r prosiect yng Nghaerdydd.

Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud yng Nghymru y tynnwyd sylw atynt.

Mae Cymru yn wynebu argyfwng tai. Mae gennym lawer i'w ddysgu o'r ffordd y mae gwledydd eraill yn ymateb i heriau tebyg yn fyd-eang. Rwyf am sicrhau bod gan Gymru hefyd statws cyfartal ar y llwyfan rhyngwladol, a'i bod yn arwain datrysiadau arloesol ym maes tai gyda chymunedau ledled y wlad.